**Cyfeirnod Rhyddid**

**Gwybodaeth SCHTh: 76-2017**

**Cais:**

Nodwch yr holl wariant ar gyfer y 3 blwyddyn ariannol ddiwethaf o arian a gedwir gan Ddyfed-Powys o'r Ddeddf Elw Troseddau. Nodwch enw'r gost, disgrifiad o beth ydyw lle bo angen neu lle y mae manylion, nifer lle y bo'n berthnasol, a'r swm a dalwyd.

**Ymateb:**

Mae Adran 1 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn gosod dwy ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus. Oni bai bod eithriadau'n gymwys, y ddyletswydd gyntaf dan Adran 1(1)(a) yw cadarnhau neu wadu pa un ai a yw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani'n cael ei chadw ai peidio. Yr ail ddyletswydd dan Adran 1(1)(b) yw datgelu'r wybodaeth a gadarnhawyd ei bod yn cael ei dal.

Medraf gadarnhau bod Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) ar gyfer Dyfed-Powys yn dal y wybodaeth rydych chi'n ceisio. Mae'r manylion fel a ganlyn:

| Blwyddyn Ariannol | Gwariant Deddf Elw Troseddau |
|---|---|
| 2014/2015 | £71,412.90 – 20 prosiect cymunedol wedi'u hariannu |
| 2015/2016 | £87,800.20 – 23 prosiect cymunedol wedi'u hariannu |
| 2016/2017 | £84,593.05 – 21 prosiect cymunedol wedi'u hariannu |

Gweler y ddolen isod sy'n ymwneud â chrynodeb o'r prosiectau cymunedol a ariannwyd a'r symiau a ddarparwyd.

http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/cronfar-comisiynydd/

Noder: Mae'r ffigurau a ddarperir o wariant Deddf Elw Troseddau ychydig yn wahanol i'r ffigurau a amlinellir yn yr hyperddolen oherwydd roedd rhai o'r grantiau, ar ôl eu gwobrwyo, yn methu â bodloni a chyflawni eu telerau ac amodau grant, felly ni wnaethant dderbyn yr arian grant.

---

**Yn ogystal â'r uchod, ni all Heddlu Dyfed-Powys gadarnhau na gwadu ei fod yn dal unrhyw wybodaeth arall mewn perthynas â chorff eithriedig gan nad yw'r ddyletswydd yn Adran 1(1)(a) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn berthnasol yn rhinwedd yr eithriad canlynol:**

**Adran 23(5) Gwybodaeth a roddwyd gan Gyrff Diogelwch penodol, neu sy'n ymwneud â nhw**

**Mae Adran 23 yn eithriad diamod sy'n seiliedig ar ddosbarth ac nid oes gofyniad i ystyried y budd cyhoeddus yn yr achos hwn.**

---

**Oherwydd y systemau a fabwysiadwyd gan Heddlu Dyfed-Powys mewn perthynas â chofnodi materion o'r fath, dylid nodi y gall y wybodaeth a ddarperir fod yn wallus.**

**(Dyma ymateb o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a ddatgelwyd ar 31/10/17)**